**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**3/1/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Rhodri Prys Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

2441 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a estynnodd cydymdeimlad dwys gyda'r Cynghorydd Heledd Jones a'r teulu yn eu profedigaeth diweddar.

2442 **Ymddiheuriadau:** Heledd Jones.

2443 **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2444 **Cofnodion:** Cafwyd Cofnodion Rhagfyr 6ed, 2012 yn gywir.

2445 **Maes-y-pandy:** Rhoddwyd ystyriaeth i gyflwyniad Cynefin ar 6/12/22 ar ddyfodol plotiau Maes-y-pandy, a chyfarwyddwyd y Clerc i anfon diolch y Cyngor am eu presenoldeb ac am iddynt egluro'r drefn gosod. Nodwyd mai ychydig iawn oedd y galw'n lleol am dai cymdeithasol. Gwerthfawrogwyd fod Cynefin wedi cynnig ceisio rhannu'r datblygiad i ddwy wedd, ac wedi mynegi parodrwydd i drafod ymhellach gyda'r Cyngor. Cytunwyd i egluro i Cynefin nad ydyw safbwynt y Cyngor wedi newid, ac mai barn yn Cyngor yw y byddai gwthio yn erbyn teimladau'r gymuned yn drist ac annoeth.

2446 **Eglwys Deiniol Sant:** Roedd nifer o'r aelodau wedi cael cyfle i drafod dyfodol yr adeilad gyda Swyddogion yr Eglwys yng Nghymru, a phob Cynghorydd wedi cael y cyfle i ymweld yn ddiweddar. Cafwyd nifer o syniadau gwerthfawr ar ddefnydd posib o'r adeilad, a bydd y Grŵp Ardal yn trafod rhain ymhellach gyda Steffan Prys Roberts, Cyngor Gwynedd.

2447 **Cyngor Gwynedd**: derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Dywedodd ei fod yn trefnu cyfarfod gyda Carys Vaughan Williams i drafod cydweithio gydag Elusen Maurice Vaughan. Byddai cynnwys yr Elusen yn ddymunol.

Mae wedi trafod gyda Paul Williams Cyfoeth Naturiol Cymru y posibilrwydd o neilltuo darn o goedwig cyfagos i blant sgramblo ar eu beics. Mae'n dymuno cyfarfod y plant yn fuan er mwyn cael eu barn.

Eglurodd y drefn graeanu a bod y prif ffyrdd yn cael blaenoriaeth. Mae pob bin halen yn llawn.

Diolchodd Alwyn E Jones i giang Cyngor Gwynedd am ddod allan ar unwaith ar ddydd Calan i glirio'r ffosydd.

2448 **Is-Bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau -

i. Nadolig: Roedd canmoliaeth a gwerthfawrogiad o holl ymdrechion y pwyllgor gweithgar hwn. Cytunwyd i dalu £20 am ddefnydd cerbyd Sion Corn. Cytunwyd i ddiolch i'r Eryrod am y mins peis blasus.
ii. Bioamrywiaeth: heb gyfarfod yn ddiweddar
iii. Mynwentydd: astudiwyd y tendrau a ddaeth i law a dewiswyd ymgeisydd. Tynnodd y Clerc sylw at y drefn wrth hysbysebu am dendrau.
Mae angen tocio'r coed wrth yr Eglwys a chytunwyd i wneud y trefniadau priodol gyda'r arbenigwr lleol a'r arbenigwr coed o Barc Cenedlaethol Eryri, gyda 2 Gynghorydd yn cynorthwyo. Bydd angen tynnu'r eiddew a'r tyfiant o wal y fynwent.
iv. Asedau: Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod i drefnu'r gwaith wrth y Cyfleusterau.
v. Grŵp Datblygu: trefnir Noson Goffi "Caru Llan" ar 14/2/23 gan gymryd y cyfle hwn i ymgysylltu a'r gymuned ar brosiectau lleol. Ni fydd tâl mynediad, ond gwneir casgliad at achos da. Gofynnir i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched i baratoi lluniaeth. Bydd angen trefnu'r byrddau ymhell cyn 7.00 o'r gloch. Gwahoddir Sion Llewelyn i baratoi cwis byr.
vi. Cyllid: Roedd y Cofnodion a'r dogfennau wedi eu dosbarthu ymlaen llaw. Cytunwyd gyda'r Gyllideb a baratowyd gan yr is-bwyllgor. Cytunwyd gyda gosod y praesept yn £14,820 sef 5% yn fwy na llynedd. (**Band D 330.26 £44.87 y cartref) .** Er mwyn cyflawni'r Gyllideb, bydd angen mynd i'r balansau, oni bai y daw arbedion i'r golwg yn ystod y flwyddyn. Mae'r Is-Bwyllgor yn rhybuddio na ellir parhau i wneud hyn, ond maent yn ymwybodol o gostau byw y dyddiau yma ac wedi cadw'r cynnydd mor isel a phosib.

2449 **Materion ariannol y mis:** Derbyniwyd adroddiad y SAC a chymeradwywyd talu'r anfonebau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pethe Penllyn (hysbyseb y Fynwent) | £16.00 |
| Dwr Cymru | £222.60 |
| HG Web designs | £250.00 |
| Costau Swyddfa | £240.00 |
| Nwyddau'r Cyfleusterau | £32.28 |
| CThEM | £126.00 |

CYTUNDEBAU:
Staff
Glanhau

2450 **Partneriaeth Penllyn:** Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn hwylus.

2451 **Un Llais Cymru:** Nodwyd derbyn Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio Etholiadau

2452 **Cynllunio:** dim cais

2453 **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Ymgynghoriad ar y Strategaeth Hybu'r Gymraeg drafft ar gyfer 2022 – 27. Bydd y Grŵp Datblygu yn ymateb.

2454 **Materion Lleol y Cynghorwyr:**

i. Gwelwyd ymwelwyr yn dringo wal y bont dros yr afon Lliw er mwyn cyrraedd Llwybr y Cei. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am fwlch er mwyn cael croesi'n ddiogel.

ii. Mae angen llenwi pant tua 2 droedfedd ar Lwybr Tegid wrth Bont Lliw, ond eiddo'r Urdd yw'r Llwybr. Dywedodd Alwyn M Roberts y gall drafod gyda chontractwr lleol. Yn ddelfrydol mae angen wyneb newydd: dywedodd un aelod ei bod fel seiclo ar ddraenog.

iii. Holwyd am y ramp o'r hen Efail at Benrhiwdwrch sydd yn cyfyngu ar y lle i basio. Cytunwyd i edrych yn fanylach ar y cais a gyflwynwyd yn Hydref 2021 (NP5/71/2G).

2455 **Dyddiad** a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/2/23